Cyngor Dinas Casnewydd

Hysbysiad Preifatrwydd

Gwasanaeth a manylion cyswllt	
Gwasanaeth:	Adfywio a Datblygu Economaidd
Manylion cyswllt:	planning@newport.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Hysbysiad Preifatrwydd Rheolaeth Cynllunio ac Adeiladu (rheoli datblygiad)

Ffynhonnell gwybodaeth a chategorïau o wybodaeth yn cael eu prosesu

Mae'r adran hon ond yn berthnasol os yw data personol wedi'i gael gan ffynhonnell ond chi eich hun (gwrthrych y data).

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

Manylion cyswllt;
Gwybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi/gwrthwynebu ceisiadau;
Gwybodaeth ariannol;
Sylwadau ar ddogfennau polisi drafft a dogfennau eraill yn ymwneud â chynllunio/rheoli adeiladu/treftadaeth.

Rydym wedi cael eich gwybodaeth gan:

Cyflwyniad personol;
Porth Cynllunio;
Awdurdodau Rheoli Adeiladau Partner – (unrhyw aelod o Gynllun Awdurdod Partner ARhAP).

Diben a sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth

Yma, byddwn yn egluro ein rheswm dros gasglu eich data personol a'r rhesymau dros brosesu.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth:

Mae angen prosesu ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth ymgymryd ag awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr

Mwy o fanylion am ein sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth a diben prosesu:

Rydym dan rwymedigaeth gyfreithiol i brosesu eich cais sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol;
Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys y canlynol:
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) 1990 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)
Deddf Cynllunio 2008
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd)

Mae angen cydsyniad penodol er mwyn prosesu eich gwybodaeth bersonol pan darperir sylwadau/gwrthwynebiadau ar gyfer cais cynllunio

Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu hwn yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hyn, cysylltwch â'r person a enwir ar ben yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

(Dim ond yn berthnasol i brosesu ar sail caniatâd)

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom i ddarparu'r gwasanaeth i ni, os oes naill ai:

a) Ymrwymiad contract i wneud felly, neu
b) Ymrwymiad statudol i wneud felly.

(Dim ond yn berthnasol os mai cyflawni contract neu ddyletswydd/tasg Cyhoeddus yw'r sail gyfreithiol dros broses).

Mae canlyniadau peidio â rhoi gwybodaeth fel a ganlyn:

Mae angen prosesu eich data personol gan Gyngor Dinas Casnewydd (NCC) er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. Heb y wybodaeth hon, ni all CDC gyflawni eich cais i ystyried a phenderfynu ar gais cynllunio neu ddarparu tystysgrif gwblhau.
Ni all CDC roi gwybod i chi am gynnydd ar ddogfennau polisi cynllunio.

Data Categori Arbennig
(Dim ond yn berthnasol os mai data categori arbennig sy'n cael ei brosesu)

Weithiau rydym yn prosesu categori arbennig a ddiogelir yn fwy dan y Ddeddf Diogelu Data. Y rheswm am hyn yw y ystyrir bod data categori arbennig yn fwy sensitif. Os ydym yn prosesu eich data categori yna mae angen i ni sefydlu sail gyfreithiol bellach dros brosesu, ac rydym wedi tynnu sylw at hyn isod:

Mae budd cyhoeddus mawr ynghlwm.

Penderfynu awtomataidd/proffilio
(Dim ond yn berthnasol os ydym yn gwneud penderfyniad awtomataidd ar wrthrych data)

Weithiau rydym yn defnyddio cyfrifiaduron neu dechnoleg i'n helpu ni i wneud penderfyniadau ar y gwasanaeth rydym yn eu cynnig i chi. Isod ceir manylion am y systemau penderfynu neu broffilio rydym wedi'u defnyddio, a sut daethpwyd i'r penderfyniad:

Click here to enter text.

Pwy fydd yn gweld eich gwybodaeth bersonol?

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Rheolwr y Gwasanaethau Digidol
E-bost: information.management@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 656656

Gallai rheolwyr data eraill hefyd fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r gwasanaeth am fwy o wybodaeth.

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth bersonol yw:

Staff Cymorth Technegol, Swyddogion Cynllunio a Syrfewyr Rheoli Adeiladu, Buddsoddi mewn Adfywio a Thai, Cyngor Dinas Casnewydd

Gallen ni rannu eich gwybodaeth o fewn Cyngor Dinas Casnewydd:

Dyma'r adrannau y gallwn rannu eich data â nhw'n fewnol:
Y Gyfraith a Safonau
Isadeiledd
Diogelu'r Cyhoedd
Tai
Addysg
Y Dreth Gyngor
Cefn Gwlad
Twristiaeth,
Hamdden a Diwylliant
Polisi Cynllunio Ystadau
Gwasanaethau Cymdeithasol
Archwilio Mewnol
Aelodau Etholedig yn y Pwyllgor Cynllunio
Adfywio'r Ddinas

Gallen ni rannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau allanol eraill:

Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PCAC)
Llywodraeth Cymru
Eich Cynrychiolwyr Cyfreithiol
Awdurdodau Partner Rheoli Adeiladau
Asiantaethau Gorfodi Cyfraith y Llywodraeth ee gyda'r Heddlu o dan Atal a Chanfod Troseddau

Mae deddfwriaeth gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Dinas Casnewydd wneud manylion ymgeiswyr a chynigion am ganiatâd cynllunio sydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Byddant ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor. Mae manylion fel llofnodion, rhifau ffôn personol a chyfeiriadau e-bost personol yn cael eu golygu cyn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd.

Mae sylwadau gan ymgyngoreion statudol ac eraill hefyd ar gael yn gyhoeddus ar y dudalen gais.

Mae unrhyw sylwadau a dderbynnir gan aelodau'r cyhoedd hefyd yn cael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau a byddant ar gael i'r cyhoedd ar-lein ynghyd â chyfeiriad y preswylydd. Mae'n bwysig cael y wybodaeth hon i asesu effaith y datblygiad yn ofodol ar unrhyw un sydd wedi gwneud sylwadau. Bydd y sylwadau yn cael eu crynhoi yn Adroddiad y Swyddog sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor unwaith y bydd penderfyniad wedi ei gyhoeddi ar eitemau dirprwyedig. Weithiau bydd angen cynnwys y cyfeiriad yn yr adroddiad i egluro pryderon preswylydd penodol a'r effaith y gallai datblygiad ei gael ar y preswylydd hwnnw.

Ni fydd manylion cyswllt personol eraill (megis enw, cyfeiriad e-bost, rhifau ffôn, llofnodion, Data Categori Arbennig ac ati) yn cael eu cyhoeddi ar-lein.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1985 (Mynediad at Wybodaeth) yn ei gwneud yn ofynnol bod pob papur cefndir (megis unrhyw sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd) i benderfyniadau a wneir yn y Pwyllgor Cynllunio fod ar gael i'r cyhoedd cyn i'r cais gael ei adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio. Pan fydd cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod wneud y copïau'n gyhoeddus.

Mewn amgylchiadau pan fo penderfyniad cynllunio yn cael ei apelio, mae'n ofynnol i ni rannu data o gais cynllunio gyda Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), ac sy'n cynnwys unrhyw sylwadau a wneir gan ymgynghorai statudol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r holiadur apêl yn gofyn yn statudol i ACLlau ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w prosesu'r achos i PCAC a'r apelydd. Ar gyfer apeliadau cynllunio, mae hyn yn cynnwys unrhyw sylwadau gan bartïon sydd â diddordeb a dderbyniwyd yn y cam ymgeisio. Dylai ACLlau nodi hefyd bod rheolau'r weithdrefn apelio yn cynnwys rhwymedigaethau penodol arnynt i sicrhau bod gwybodaeth apelio ar gael i'w harchwilio i unrhyw barti.

Gan y gall cyfeiriad y person sy'n gwneud sylwadau ddarparu cyd-destun ychwanegol (yn enwedig o ran cysgodi, preifatrwydd neu ddadleuon sŵn), fel arfer dylid cynnwys y wybodaeth hon gyda'r sylwadau parti sydd â diddordeb y mae'n ofynnol i ACLlau eu darparu i PCAC a'r apelydd.

Weithiau rydym yn defnyddio help arbenigol sefydliadau/cwmnïau eraill i brosesu eich data ar ein rhan. 'Proseswyr data' yw'r cwmnïau hyn. Wrth brosesu eich data, rydym yn defnyddio'r proseswyr data canlynol:

Porth Cynllunio

Manylion unrhyw brosesau o drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol yn rhyngwladol:
(os yn berthnasol)

Click here to enter text.

Ceisiadau am wybodaeth

Gallai'r holl wybodaeth a gofnodwyd y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ei chadw fod yn destun ceisiadau yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech chi wneud cais am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, gallwch wneud cais cael copi o'n **Ffurflen Gais Gwybodaeth Bersonol** yma:

Information.management@newport.gov.uk

Os hoffech chi gyflwyno Cais Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol, gallwch gyflwyno eich cais i ni yma:

http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Transparency/Freedom-of-information.aspx

Eich hawliau

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Nodwch nad yw pob un o'r hawliau hyn yn ddiamod a bydd angen i ni ystyried eich cais wedi'i dderbyn. Mae gennych yr hawl i wneud cais:

a) i'ch data gael ei gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
b) i'ch data gael ei ddileu;
c) i gyfyngu ar eich data'n cael ei brosesu;
d) i arfer eich hawl i drosglwyddo data;
e) i wrthwynebu i brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a phenderfynu awtomataidd.

Ym mhob achos, cyflwynwch eich cais i:

information.management@newport.gov.uk

Gweithdrefn Gwyno
Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio eich data, mae gennych yr hawl i gwyno i ni. Os hoffech chi gwyno, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost aton ni yn;
Information.management@newport.gov.uk

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad eich cwyn, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni alla y Comisiynydd wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi dihysbyddu gweithdrefn gwyno'r Cyngor. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Sir Gaeelleon
SK9 5AF.

Am faint y byddwn ni’n cadw eich gwybodaeth?
Manylion y cyfnod cadw
Caiff pa mor hir y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cadw gwybodaeth ei bennu drwy ofynion statudol ac arfer gorau.